Hyfforddai Celfyddydau Ieuenctid Lleisiau Coll
Rôl hyfforddai gyda thâl. (3 diwrnod yr wythnos, am 4 mis, yn dechrau ym mis Ebrill 2022. Cyflog Byw Gwirioneddol - £11,428.56 y flwyddyn yw'r cyflog gwirioneddol; £952.38 y mis)

Rydym yn chwilio am Hyfforddai Celfyddydau Ieuenctid i weithio ar ein prosiect Lleisiau Coll. Mae'r rôl hon yn ddelfrydol i rywun sy'n dechrau ar eu taith yn y celfyddydau neu'n ystyried gyrfa yn y celfyddydau. Mae'n cyfuno profiad ymarferol o gefnogi gweithdai creadigol gyda chyfleoedd i ddatblygu'n bersonol ac i ddysgu. Mae brwdfrydedd a pharodrwydd i ddysgu yn bwysicach na phrofiad penodol. Mae empathi a'r gallu i uniaethu â chyfranogwyr y prosiect yn bwysicach na'ch cymwysterau.

Mwy am Brosiect Lleisiau Coll
Bydd Lleisiau Coll yn archwilio lleisiau pobl ifanc sydd heb gael eu clywed yn draddodiadol, mewn ffordd greadigol. Bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc â phrofiad o'r system ofal a phobl ifanc ddigartrefedd. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Mess Up The Mess (cwmni theatr ieuenctid), Llamau (elusen ddigartrefedd pobl ifanc) ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Abertawe. Dechreuodd y prosiect ym mis Awst 2021 a bydd yn gorffen gyda digwyddiad celfyddydol ar raddfa fawr i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2023.

Bydd pobl ifanc â chysylltiad at Llamau a Gwasanaethau Plant Abertawe yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithdai creadigol, gan weithio ochr yn ochr ag artistiaid i archwilio'n fanwl eu bywydau, eu profiadau, eu meddyliau a'u teimladau nhw eu hunain. Byddant yn penderfynu ar y stori/straeon maen nhw am eu hadrodd a'r ffurfiau ar gyfer eu hadrodd.

Mae Lleisiau Coll wedi ymrwymo i broses o gyd-greu lle mae cyfranogwyr yn gyrru cynnwys a ffurf y gwaith celf. O'r cychwyn cyntaf, nid ydym yn gwybod ar ba ffurf y bydd y profiad artistig cyhoeddus terfynol. Gallai fod yn ddrama, yn ffilm, yn arddangosfa, yn brofiad ymgolli neu'n rhywbeth nad oes unrhyw un erioed wedi ei weld o'r blaen.

Mwy am y Rôl
Bydd yr Hyfforddai Celfyddydau Ieuenctid yn gweithio yn swyddfa Mess Up The Mess ac yn cefnogi'r gwaith o redeg y prosiect. Bydd yn helpu rhedeg gweithdai creadigol gyda chyfranogwyr ac yn helpu cydlynu'r prosiect. Bydd cyfleoedd i ddysgu o weithgareddau eraill Mess Up The Mess, arsylwi arnynt a'u cefnogi. Gan mai cyfle i ddatblygu yw hwn, i rywun sy'n dechrau yn y celfyddydau, byddwn yn eich cefnogi i archwilio'ch llwybr gyrfa ar gyfer y dyfodol, trwy eich cael i ymgysylltu â phob agwedd ar waith Mess Up The Mess a, lle'n bosibl, gwaith sefydliadau eraill y mae Mess Up The Mess yn gweithio gyda nhw.

Disgrifiad Person

Nid oes angen unrhyw brofiad penodol ar gyfer y rôl hon. Mae wedi ei chynllunio i greu cyfle i rywun sy'n dechrau gyrfa yn y celfyddydau, neu sy'n ystyried dechrau gyrfa yn y celfyddydau.

Fel arfer, mae'r rôl hon yn gweithio o swyddfa Mess Up The Mess yn Rhydaman, ond ar hyn o bryd, oherwydd effeithiau parhaus COVID 19, mae'r tîm yn gweithio gartref. Bydd gofyn bod deiliad y swydd yn gallu gweithio yn Rhydaman ac o gartref ac i deithio i weithdai yn Abertawe, a byddwn yn talu treuliau am hyn.

Rydym eisiau i chi fod â:

- Diddordeb yn y celfyddydau a brwdfrydedd ynghylch gweithio mewn amgylchedd celfyddydau
- Parodrwydd i gymryd rhan mewn gêmau gwaith ieuenctid a drama a gweithgareddau creadigol
- Diddordeb mewn cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial
- Parodrwydd i ddysgu pethau newydd
- Gallu i fod yn fodel rôl bositif ar gyfer cyfranogwyr gan gynnwys bod yn gwrtais ac yn barchus tuag at gydweithwyr a chyfranogwyr
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da
- Hyder i ddefnyddio TGCh er mwyn gwneud tasgau syml fel anfon negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, llenwi ffurflenni ar-lein ac ysgrifennu negeseuon e-bost
- Sgiliau ymarferol i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Gallu i fod yn ddibynadwy a chadw amser yn dda
- Gallu i weithio heb oruchwyliaeth ar adegau, yn ôl yr angen
- Gallu i ddilyn rheolau a gweithdrefnau
- Gallu i weithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau
- Gallu i weithio gartref a, phan fydd cyfyngiadau Covid yn llacio, o'r swyddfa yn Rhydaman
- Gallu i deithio i weithdai yn Abertawe, a thelir treuliau am hyn

Yn ogystal, byddai'n fantais (ond nid yn hanfodol) i chi:

- Fod â rhywfaint o brofiad o weithio neu wirfoddoli mewn rôl lle rydych wedi helpu pobl
- Siarad Cymraeg
- Gallu uniaethu â phrofiadau bywyd y cyfranogwyr. Gallai cyfranogwyr fod yn bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal, profiad o ddigartrefedd neu sydd mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref, oherwydd, er enghraifft, anabledd, am eu bod yn gweld eu hunain fel LGBTQI+ neu ffactorau eraill.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus basio gwiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gofyn i bob aelod o'n staff wneud hyn gan fod ein gwaith yn golygu gweithio gyda phobl ifanc.

Disgrifiad Swydd
Fel yr Hyfforddai Celfyddydau Ieuenctid, byddwch yn:

- Cefnogi'r gwaith bob-dydd o redeg y prosiect Lleisiau Coll

- Gwneud tasgau gweinyddol gan gynnwys trefnu safleoedd a chymryd cofrestrau
- Cynorthwyo i gynllunio gweithdai creadigol, a nodi pa offer a deunyddiau sydd angen
- Casglu adnoddau a pharatoi deunyddiau ar gyfer gweithdai creadigol gyda phobl ifanc
- Cefnogi staff y prosiect sy'n rhedeg gweithdai creadigol, er enghraifft trwy osod offer a deunyddiau cyn sesiynau a sicrhau bod popeth yn cael ei roi heibio ar y diwedd
- Cynorthwyo cyfranogwyr yn ystod gweithdai creadigol trwy fod yn fodel rôl positif a chymryd rhan ymhob tasg greadigol
- Bod yn bwynt cyfathrebu rhwng cyfranogwyr a staff y prosiect
- Rhannu gwybodaeth gyda chyfranogwyr am weithgareddau sydd ar droed, trwy anfon negeseuon ac ymateb iddynt
- Ysgrifennu postiadau a phostio ar gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r prosiect
- Tynnu ffotograffau a ffilmio fideos i helpu adrodd stori'r prosiect ac i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn adroddiadau i gyllidwyr
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygiad er mwyn datblygu eich gyrfa eich hun yn y celfyddydau
- Dod â'ch diddordebau a'ch sgiliau eich hun i'r prosiect a chael profiad proffesiynol o'u defnyddio
- Bod yn rhan o dîm Mess Up The Mess a chyfrannu at yr ystod lawn o gyfleoedd creadigol yr ydym yn eu darparu ar gyfer pobl ifanc
- Dilyn polisïau a gweithdrefnau Mess Up The Mess yn eich gwaith ar bob adeg
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn llyfn

Sut i Ymgeisio
Gallwn dderbyn ceisiadau ar ein ffurflen gais yn unig. Lawrlwythwch y ffurflen:

http://messupthemess.co.uk/language/cy/hyfforddai-celfyddydau-ieuenctid-lleisiau-coll/

Gofynnir i chi esbonio sut yr ydych yn bodloni gofynion y rôl fel y disgrifir yn y Disgrifiad Person (uchod). Meddyliwch yn ofalus am eich profiad (gan gynnwys yr ysgol a'r coleg, diddordebau, hobïau a gweithgareddau, gwirfoddoli neu gyfrifoldebau gofal) a sut mae hyn yn dangos eich bod yn bodloni gofynion y rôl.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Llun 14 Chwefror 2022 am 1.00pm. Ni allwn dderbyn ceisiadau sy'n dod i law ar ôl yr amser hwn.

Byddwn yn tynnu rhestr fer o ymgeiswyr yn ôl pa mor dda maen nhw'n bodloni gofynion y rôl a ddisgrifir yn y Disgrifiad Person. Os ydych wedi cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn eich gwahodd i ddod i gyfweliad ddydd Iau 3 Mawrth 2022 yn Abertawe.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, neu os hoffech siarad â rhywun amdani, e-bostiwch ni ar:lostvoices@messupthemess.co.uk ac fe drefnwn ni amser i siarad.

Sylwer: mae'r cyfnod hyfforddai am dâl yn para 4 mis. Mae'n gyfle am gyfnod penodol ac nid oes posibilrwydd o'i ymestyn.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government